

Cynnig Gwasanaeth Newid Bywydau Cytundeb Partneriaeth gydag Ysgolion 2019 - 2020



Croeso

Croeso i'n Cytundeb Partneriaeth ar gyfer ysgolion sy'n crynhoi'r ystod o wasanaethau a gynigir i ysgolion ar gyfer y flwyddyn i ddod...

Mae Newid Bywydau - Gweledigaeth ar gyfer Gyrfa Cymru yn atgyfnerthu ein hymrwymiad i weithio gydag ysgolion, rhieni a chyflogwyr er mwyn helpu pobl i "reoli" eu gyrfaedd drwy gydol eu bywydau ac i ddeall byd gwaith a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Mae'n nodi cyfle cyffrous i ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd newydd, gan fanteisio i'r eithaf ar sianelau digidol a thechnoleg i gefnogi defnyddwyr gwasanaeth ifanc..

Mae Gyrfa Cymru yn gweithio'n helaeth gyda rhwydwaith eang o bartneriaid er mwyn cefnogi unigolion i gyflawni canlyniadau llwyddiannus mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Mae gwaith partneriaeth effeithiol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau arbenigol ar gael i gleientiaid pan fydd eu hangen arnynt. Bydd gweithio'n agos â phartneriaid a datblygu prosesau cyd-gefnogol yn ein galluogi i wneud y defnydd gorau posibl o'n hamser a'n hadnoddau.

Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda chi er mwyn helpu pobl ifanc drwy'r cyfnodau pontio allweddol a'u paratoi ar gyfer byd gwaith.

Nikki Lawrence
Prif Weithredwr



Cynnwys

Tudalen

Cyd-destun – Blaenoriaethau Cylch Gwaith Gyrfa Cymru	4
Newid Bywydau – Cynnig ar gyfer Pobl Ifanc	5
Y Model Darganfod Gyrfa	6
Tîm Gyrfa Cymru	7
Diagram Tîm Gyrfa Cymru	8
Tîm y Cwricwlwm	9
Tîm Cyswllt Busnes	10
Cymorth i Ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol	11
Cysylltu â Rhieni	12
Diogelwch a Diogelu	13
TGCh a Llywodraethu Gwybodaeth	14
Gweithio ar y Cyd	15
Calendr	



1 Cyd-destun

Cylch Gwaith Llywodraeth Cymru

Mae Gyrfa Cymru yn cyflawni cylch gwaith a osodwyd gan Weinidogion Cymru ac yn darparu gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd Gyrfaedd sy'n annibynnol, diduedd a dwyieithog, i bobl o bob oedran, yn ogystal â gwasanaeth Busnes ac Addysg yng Nghymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar y grwpiau canlynol:

pobl ifanc â datganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) neu ddatganiadau cyfatebol;

pobl ifanc 11-18 oed sydd â'r angen mwyaf am Wybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd Gyrfaedd gyda phwyslais penodol ar ddarparu cymorth i'r unigolion hyn yn ystod cyfnodau pontio allweddol;

pobl ifanc a addysgir heblaw yn yr ysgol;

pobl ifanc 16 -17 oed sy'n ddi-waith;

pobl ifanc sy'n rhan o'r system Cyfiawnder Ieuencid.

Mae Gyrfa Cymru hefyd yn gyd-fuddiolwr mewn prosiect a ariennir gan gyllid Ewropeaidd; Ysbrydoli i Gyflawni, TRAC a Cynnydd. Mae'r prosiect hwn yn darparu cymorth i bobl ifanc a nodwyd fel rhai a allai ymddieithrio o addysg statudol drwy drefniadau Awdurdod Lleol.

Mae ein Cynghorwyr Gyrfa yn cynnig cymorth ar ffurf anogaeth a mentora i unigolion a nodwyd yn eich ysgol er mwyn mynd i'r afael â rhwystrau i ddysgu parhaol. Ochr yn ochr â hyn, mae ein Cynghorwyr Cyswllt Busnes yn cefnogi cyfranogwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael mynediad i brofiadau gwaith go iawn, gan gynnwys profiad gwaith i godi dyheadau a datblygu dealltwriaeth o fyd gwaith.

Canlyniadau i unigolion

Nod ein gwasanaethau yw sicrhau'r canlyniadau canlynol i unigolion er mwyn eu paratoi i wneud penderfyniadau effeithiol am eu gyrfa wrth gyrraedd cyfnodau pontio allweddol:

Ymwybyddiaeth	Dyhead	Gallu	Gweithredu
Dealltwriaeth well o Wybodaeth Marchnad Lafur a'r cyfleoedd dysgu, hyfforddi a chyflogaeth sydd ar gael iddynt. Ymwybyddiaeth o'u cryfderau, eu sgiliau a'u galluoedd eu hunain, meysydd i'w gwella a phwy all eu helpu.	Mwy o ddyhead a chymhelliant i gyfranogi mewn gwaith, addysg a hyfforddiant.	Gwella'r defnydd effeithiol o sgiliau a chymwyseddau i wneud penderfyniadau, cydnerthedd i addasu a newid i ddelio ag amgylchiadau sy'n newid.	Mwy o hyder, sgiliau a gallu i ddefnyddio'u cysylltiadau, gweithredu cynlluniau, gwneud ceisiadau llwyddiannus am waith, addysg a hyfforddiant cynaliadwy.

2 Newid Bywydau – Cynnig ar gyfer Pobl Ifanc

O ganlyniad i ymgynghori â phobl ifanc a sefydliadau partner, mae dull Gyrfa Cymru o ddarparu'n seiliedig ar ganfod anghenion yn gynnar ynghyd â chyfuniad o ddulliau wyneb yn wyneb, digidol a rhyngweithiadau sy'n ymwneud â chyflogwyr.

Mae'r gwasanaeth a gynnig gennym yn cynnwys

- Cyflwyniad i bob dysgwr CA3 a'u hathrawon i'n gwasanaethau a fydd yn cynnwys y cwis Paru Swyddi newydd a cham cyntaf y Model Darganfod Gyrfa¹.
- Ymgymryd â dadansoddiad cynnar o anghenion drwy'r adnodd Gwirio Gyrfa², gyda phob dysgwr CA4 i gynllunio a chynnig lefel briodol o gymorth gan dîm Gyrfa Cymru.
- Cynnig gwasanaeth digidol i unigolion mewn addysg ôl-16 gan wneud defnydd llawn o'n darpariaeth gweminar a chreu 'Canllaw Goroesi'³ ar gyfer y rhai sy'n parhau â'u dysgu.
- Cymorth parhaus ar gyfer y disgyblion hynny sy'n gadael yr ysgol yn 16 oed nes iddynt setlo yn eu lleoliad ôl-16 cyntaf.
- Cymorth ar gyfer rhieni/gofalwyr i ymgysylltu â phenderfyniadau gyrfa eu plentyn, gan gynnwys digwyddiadau i rieni a digwyddiadau eraill y cytunwyd arnynt yn lleol.
- Cyfres o weminarau ac ymgyrchoedd ar-lein ar gyfer pob dysgwr.
- Mynediad i'n gwefan newydd sy'n cynnwys Golwg ar sectorau twf, clipiau You Tube, cwis Paru Swyddi⁴, Gwybodaeth Marchnad Lafur, Cyrsiau yng Nghymru a phrentisiaethau.
- Cymorth drwy Sgwrs ar-lein a'n llinell gymorth Cyswllt Gyrfa Cymru.
- Cefnogi addysg ac ymgysylltu â chyflogwyr i gyfoethogi'r cwricwlwm gyrfaoedd a byd gwaith.
- Cymorth datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer ysgolion ac athrawon.
- Mynediad i wybodaeth ddiweddar a chywir am y farchnad lafur er mwyn llywio'r broses o gynllunio gyrfa.

Manteision i'ch ysgol

- Dull effeithiol ac effeithlon o gynllunio a darparu ein gwasanaethau drwy weithio mewn tîm, gyda'r Cynghorydd Gyrfa yn arwain yn eu rôl fel Swyddog Cyfrif yr ysgol. (Gweler tudalennau 7 & 8 am fanylion y tîm).
- Gweithgareddau Cysylltu â Chyflogwyr sy'n cefnogi ac yn cyfoethogi cwricwlwm ysgol a phrofiad dysgwyr o'r byd gwaith (am fanylion gweler tudalen 10).
- Mae gan bob dysgwr CA4 fynediad i'n gwasanaethau i gefnogi proses effeithiol o gynllunio gyrfa, codi dyheadau ac o ganlyniad, cefnogi cynnydd o ran cyflawniadau ar lefel TGAU. Cyflawnir hyn drwy ddefnyddio cymysgedd o sianelau, gan gynnwys rhyngweithio wyneb yn wyneb, sesiynau grŵp a gweithdai, gweithgareddau cysylltu â chyflogwyr, gweminarau, ymgyrchoedd a chysylltiadau dros y ffôn, negeseuon testun, sgysiau dros y we a negeseuon e-bost.
- Bydd gan bob dysgwr CA5 fynediad i'n gwasanaethau digidol a chymorth wedi'i dargedu ar gyfer y bobl ifanc hynny a nodwyd fel rhai a allai ymddieithrio o addysg neu sy'n pontio i'r farchnad lafur.
- Bydd pob person ifanc â datganiad anghenion dysgu ychwanegol neu sy'n mynd drwy broses adolygu cyfnod pontio ffurfiol yn parhau i gael ei gefnogi yn unol â'r Cod Ymarfer.
- Cefnogaeth datblygiad proffesiynol sy'n arwain y sector ar gyfer athrawon.
- Caiff disgyblion sy'n gadael yr ysgol yn 16 oed eu cefnogi i aros mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant drwy dderbyn cymorth gan Gyrfa Cymru hyd nes y byddant wedi setlo yn eu lleoliad ôl-16 cyntaf.

¹ Y Model Darganfod Gyrfa - model sy'n mynd i'r afael ag anghenion unigol drwy amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir yn ddigidol ac wyneb yn wyneb. ² Gwirio Gyrfa - holiadur ar-lein a gwblheir gan ddisgyblion CA4 er mwyn helpu Gyrfa Cymru i gynllunio'r gwasanaethau mwyaf priodol i ddiwallu eu hanghenion. ³ Canllaw Goroesi - adnoddau ar-lein i gefnogi dysgwyr sy'n parhau â'u haddysg ar ôl iddynt gyrraedd 16 oed. ⁴ Cwis Paru Swyddi - cwis ar-lein sy'n creu syniadau gyrfa sy'n gysylltiedig â sgiliau a diddordebau'r unigolyn.

Y Model Darganfod Gyrfa

DIAGNOSIS

Nodi diddordebau gyrfa, lefelau cymhelliant a sgiliau rheoli gyrfa drwy offer ar-lein a phroffion seicometrig

DIGIDOL

- Prawf seicometrig ar-lein

WYNEB YN WYNEB

- Diagnosis rheoli gyrfa
- Sesiynau grŵp rheoli gyrfa

DARGANFOD

Defnyddio sianelau digidol, yn cynnwys gyrfacymru.com a chyfryngau cymdeithasol i ddod â gyrfaeodd yn fyw drwy storïau gyrfaeodd, proffiliau cyflogwyr, offer, adnoddau a chynnwys cyfoethog arall i ysbrydoli a hysbysu

DIGIDOL

- Cynnwys ac offer rhyngweithiol ar gyrfacymru.llyw.cymru
- Gwybodaeth Gyrfaoedd a GML yn cael ei lledaenu drwy gyfryngau cymdeithasol
- Ymgyrchoedd a sesiynau cyngor aml-sianel ar faterion gyrfa allweddol
- Hwyluso sesiynau holi ac ateb ar-lein gan ddefnyddio'r gwasanaeth sgwrsio ar-lein a chyfryngau cymdeithasol

WYNEB YN WYNEB

- Sesiynau grŵp dan arweiniad cyflogwyr
- Profiad gwaith
- Bagloriaeth Cymru a gwersi ABCCh

CYFLWYNO

Rhaglen ddigidol genedlaethol wedi'i chyfuno â gwasanaethau lleol wyneb-yn-wyneb sy'n cael eu cyflwyno gan ein tîm Cynghorwyr Gyrfa sydd wedi'i alluogi'n ddigidol

DIGIDOL

- Anogaeth parhaus a chefnogaeth gan Gynghorydd Gyrfa sydd wedi'i alluogi'n ddigidol
- Rhaglen genedlaethol o weminarau gyda mewnbwn gan gyflogwyr, cyrff proffesiynol a sefydliadau allweddol o sectorau penodol
- "Gwthio" GML a chynnwys sy'n gysylltiedig â gyrfaeodd i unigolion drwy e-bost a thestun
- Codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd gan ddefnyddio testun ac e-bost
- Canllawiau "Sut i" a GML ar-lein ac offer hunangymorth rhyngweithiol

WYNEB YN WYNEB

- Hyfforddiant Un-i-Un
- Gweithdai galwedigaethol pwrpasol
- Clinigau a gwib gymorthfeydd

3 Tîm Gyrfa Cymru

Mae gan Gyrfa Cymru amrywiaeth eang o arbenigedd i ddarparu'r gwasanaethau a gynigir. Mae'r disgybl yn ganolog i'r broses o ddatblygu ein gwasanaethau a'r hyn y mae ein tîm yn ei ddarparu.

Cynghorwyr Gyrfa

Disgrifiad o'r Gwasanaethau

Wrth wraidd ein gwasanaethau mae Cynghorwyr Gyrfa sydd wedi'u hyfforddi'n broffesiynol. Mae safonau proffesiynol Gyrfa Cymru ar gyfer Cynghorwyr yn golygu bod angen iddynt gyflawni Lefel 6 y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau mewn Cyfarwyddyd a Datblygu Gyrfaedd neu gymhwyster cyfwerth a chofrestru ar Gofrestr Gweithwyr Proffesiynol Datblygu Gyrfaedd y DU o fewn y Sefydliad Datblygu Gyrfa. Maent yn darparu cymorth diduedd a phroffesiynol i unigolion. Bydd Cynghorwyr Gyrfa hefyd yn gweithredu fel 'swyddogion cyfrif' ar gyfer ysgolion unigol, lle y byddant yn cydlynu'r amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir gennym. Byddant yn:

- Cynllunio a darparu gweithgareddau i ategu ein rhaglen gyrfaedd ac addysg sy'n gysylltiedig â gwaith.
- Darparu gwasanaethau personol, gan gynnwys sesiynau rhyngweithio wyneb yn wyneb, a gaiff eu pennu yn unol â dadansoddiad trylwyr o anghenion.
- Cefnogi dysgwyr ag anghenion ychwanegol a dysgwyr a nodwyd fel rhai 'sydd angen' cymorth ychwanegol.
- Nodi cymorth priodol gan ein tîm Cyswllt Busnes.
- Gweithio gyda'r ysgol i nodi grwpiau blaenoriaeth.
- Darparu amrywiaeth o adnoddau drwy gyrfacymru.com
- Cofnodi a monitro ein gwaith gyda dysgwyr ac olrhain cynnydd, gan ddefnyddio data dysgwyr yn unol â'r protocolau llym sydd ynghlwm wrth rannu data.





Mae Tîm y Cwricwlwm yn arbenigol ac yn brofiadol ym maes datblygu gyrfa. Mae Gyrfa Cymru yn awyddus i barhau i weithio gydag ysgolion i'w helpu i ddatblygu a chyfoethogi'r cwricwlwm Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith.

Y Gwasanaeth a Gynigir

Byddwn yn parhau i gynnig y gwasanaethau canlynol:

- Darparu gwasanaeth ymgynghori priodol i gydweithwyr mewn ysgolion a cholegau mewn perthynas â gweithredu'r fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith gyda ffocws penodol ar y cwricwlwm newydd a gwybodaeth marchnad lafur.
- Cefnogi ysgolion a cholegau sy'n dymuno mynd ar drywydd Marc Gyrfa Cymru a gweithio gyda'r rhai sy'n ceisio cael ailachrediad.
- Cydweithio ag ysgolion arloesol a'r consortia ysgolion i gefnogi'r Cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru.
- Datblygu adnoddau i gefnogi athrawon a darlithwyr i gyflawni canlyniadau'r fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith.
- Cefnogaeth i fynd i'r afael ag argymhellion a gynhwysir yn adroddiadau thematig Estyn.

Yn ogystal, byddwn yn datblygu ein cynnig ar gyfer 2019 a 2020 drwy:

- Weithio gyda Llywodraeth Cymru i bennu'r cymorth y gall Gyrfa Cymru ei ddarparu er mwyn helpu i nodi sut y bydd Addysg Gyrfaoedd ac addysg sy'n gysylltiedig â gwaith yn rhan o'r cwricwlwm newydd.
- Darparu gwybodaeth i ysgolion ynghylch dyheadau eu disgyblion.
- Cefnogi'r gwaith o dreialu Meincnodau Gatsby mewn Awdurdod Lleol dynodedig a gweithio gydag ysgolion eraill sy'n dymuno archwilio potensial cyflwyno'r Meincnodau.
- Hyfforddi athrawon i ddefnyddio'r Gyfnewidfa Addysg a Busnes.
- Cyflwyno'r Dystysgrif Lefel 6 mewn Arweinyddiaeth Gyrfa ymhellach yn dilyn peilot llwyddiannus yn 2018/19.



⁷ Gwobr Arweinydd Gyrfaoedd – Tystysgrif mewn Arwain Gyrfa, sy'n seiliedig ar dair uned ddewisol Diploma Lefel 6 mewn Cyfarwyddyd a Datblygu Gyrfa, a gyflwynir mewn cydweithrediad â'r Sefydliad Datblygu Gyrfa (CDI).

Mae gan Gyrfa Cymru gysylltiadau sefydlog â chyflogwyr lleol a chenedlaethol er mwyn cefnogi'r dull o gysylltu â chyflogwyr. Mae gennym dîm cenedlaethol o Gynghorwyr Cyswilt Busnes, sy'n brofiadol o ran gweithio gyda chyflogwyr ac yn meddu ar wybodaeth arbenigol am dueddiadau cenedlaethol a rhanbarthol yn y farchnad lafur.

Mae ymgysylltu â chyflogwyr yn hanfodol er mwyn:

- helpu disgyblion i ddeall sut mae'r pynciau y maen nhw'n eu hastudio yn yr ysgol yn berthnasol i fyd gwaith
- rhoi mynediad i ddysgwyr i brofiadau gyda chyflogwyr sy'n gallu eu helpu i gynllunio eu gyrfa
- rhoi gwybodaeth am dueddiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn y farchnad lafur
- helpu i godi dyheadau disgyblion ynghylch eu nodau gyrfa.

Y Gwasanaeth a Gynigir

Drwy ddefnyddio'r Gyfnewidfa Addysg Busnes, gall Gyrfa Cymru hwyluso'r cysylltiadau rhwng byd Busnes ac Addysg drwy ystod o weithgareddau a rhaglenni:

- Heriau a chystadlaethau sy'n cael eu harwain gan gyflogwyr
- Gwyliau Gyrfaoedd rhyngweithiol mawr
- Gweithgareddau Menter
- Ymweliadau â safleoedd cyflogwyr
- Sgyrsiau gan gyflogwyr mewn ysgolion
- Gweminarau rhyngweithiol wedi'u harwain gan gyflogwyr
- Cyfranogi yn y Rhaglen Dosbarth Busnes
- Profiad gwaith wedi'i deilwra*

*DS Mae Gyrfa Cymru yn trefnu profiad gwaith wedi'i deilwra drwy'r prosiectau ESF rhanbarthol. Bydd y Gyfnewidfa Addysg Busnes yn cynnwys manylion cyflogwyr sy'n fodlon cefnogi profiad gwaith 'prif ffrwd', ond cyfrifoldeb yr ysgolion yw trefnu'r lleoliadau hyn.

Manteision ar gyfer eich ysgol:

- Caiff cyflogwyr allweddol ar draws Cymru eu targedu i weithio gydag ysgolion.
- Caiff ardaloedd a sectorau twf eu cynrychioli'n dda yn ein gweithgareddau gydag ysgolion ac ar y Gyfnewidfa Addysg a Busnes.
- Mae cyfleoedd a phrofiadau lleol yn fwy hygyrch i ysgolion.
- Mae cydweithrediad agos Gyrfa Cymru â'r partneriaethau sgiliau rhanbarthol yn sicrhau bod ysgolion yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y farchnad lafur leol.



⁸Y Gwasanaeth Paru Prentisiaethau – mae'r Gwasanaeth Paru Prentisiaethau yn rhoi mynediad i gyfleoedd prentisiaethau ac mae ar gael drwy gyrfacymru.com. ⁹ Twf Swyddi Cymru - mae Twf Swyddi Cymru yn rhoi mynediad i gyfleoedd sydd ar gael drwy gyrfacymru.com. ¹⁰ Hyrwyddwr Busnes – 'mentoriaid' busnes sydd wedi dilyn hyfforddiant sy'n cael ei gynnal gan Gyrfa Cymru er mwyn sicrhau eu bod yn gymwys i ddarparu cymorth o ansawdd uchel i ysgolion a disgyblion.

Mae Gyrfa Cymru yn darparu cymysgedd o wasanaethau i gefnogi pobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) wrth iddynt bontio i waith, hyfforddiant ac addysg bellach.

Y Gwasanaeth a Gynigir

Mae'r gwasanaeth a gynigir sy'n cael ei amlinellu isod yn ymwneud â phobl ifanc:

- Sydd â Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)
- Sydd heb Ddatganiad AAA ond a gefnogir o dan gynllun Gweithredu gan yr Ysgol neu Weithredu gan yr Ysgol a Mwy, ac sy'n destun proses adolygu flynyddol a/neu bontio yn yr un modd â phobl ifanc sydd â Datganiad (sy'n Gyfwerth â Datganiad).

Mae pobl ifanc ag ADY yn grŵp blaenoriaeth a chynigir gwasanaethau wedi'u targedu iddynt drwy gydol eu gyrfa ysgol, gan gynnwys cymorth pontio i ddysgu seiliedig ar waith, cyflogaeth, AB ac AU. Nod Gyrfa Cymru yw darparu'r gwasanaeth canlynol i ddisgyblion ADY:

- Rhyngweithio â disgyblion a/neu riant / gwarcheidwad, yn ôl yr angen, er mwyn cefnogi'r cyfnod pontio (wyneb yn wyneb, dros y ffôn, e-bost).
- Mynychu Adolygiadau Pontio / Blynyddol.
- Cynhyrchu Cynlluniau Symud Ymlaen.
- Cyfeirio at wybodaeth berthnasol a gwasanaethau cymorth.
- Sesiynau grŵp fel y bo'n briodol.
- Cynllun Dysgu a Sgiliau ar gyfer disgyblion sy'n gadael yr ysgol i ddechrau ar addysg bellach, addysg uwch, darpariaeth coleg arbenigol a dysgu seiliedig ar waith.
- Ceisiadau ar gyfer cyllid Addysg Bellach arbenigol, lle y bo'n briodol.

Dyluniwyd y ddarpariaeth i alluogi Gyrfa Cymru i gyfrannu at y broses cynllunio pontio ar gyfer pob disgybl (yn unol â'r gofynion a nodir yn y Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig).

Mae Gyrfa Cymru yn ymrwymedig i gysylltu â rhieni/gwarcheidwaid i gefnogi unigolion i gynllunio gyrfaoedd a gwneud penderfyniadau.

Pam gweithio gyda rhieni?

Nod ein dull gweithredu yw:

- Cynnwys rhieni yn y broses o gynllunio gyrfa eu plentyn, i ategu'r gwaith o sicrhau canlyniadau ar y cyd.
- Hysbysu rieni sut y byddwn yn ymgysylltu ac yn cyfathrebu â'u plentyn e.e. wyneb yn wyneb, dros y ffôn, e-bost, sgwrs ar y we neu neges destun.
- Darparu mynediad i amrywiaeth o gynnyrch sy'n cyfeirio rhieni ac yn darparu cyngor a chymorth ar sut y gallant helpu gyda'r broses o gynllunio gyrfaoedd a gwneud penderfyniadau.
- Defnyddio cyfryngau priodol, gan gynnwys gyrfacymru.com i helpu rhieni i ddod yn fwy hyddysg a'u galluogi i gefnogi eu plentyn i reoli eu gyrfaoedd yn effeithiol.
- Hyrwyddo'r amrywiaeth bresennol o wasanaethau digidol gan bwysleisio gwerth sianelau digidol o ran cynnig mynediad gwell i rieni.
- Gweithio gydag ysgolion i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gynnwys rhieni yn y broses o gynllunio gyrfaoedd.

Byddwn yn gweithio gydag ysgolion unigol i nodi'r ffyrdd mwyaf priodol o dargedu rhieni, gan gynnwys cefnogi digwyddiadau i rieni a digwyddiadau gyrfaoedd mwy fel y bo'n briodol, gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau i ddarparu gwybodaeth berthnasol ar gyfnodau pwysig a chadw cysylltiad â rhieni disgyblion unigol er mwyn cefnogi'r broses o gynllunio gyrfaoedd.

"Diolch am eich amser pan roddoch chi gyngor i fy mab, Brandon, am y dewisiadau sydd ar gael iddo. Roedd yn ddefnyddiol iawn ac rwy'n gwerthfawrogi eich cymorth. Mae'n dychwelyd i flwyddyn 13 ac yn falch iawn o hynny."

Rachel (Mam)

"Ar ôl cwrdd â'r cynghorydd gyrfaoedd, daeth fy mab adref yn gyffrous am yr ysgol ac am y tro cyntaf bu'n siarad yn gadarnhaol am ei ddyfodol."

Rhiant

Gofynion Gyrfu Cymru ac Ysgolion i gefnogi proses lwyddiannus o ddarparu gwasanaeth gyrfaoedd.

Iechyd a Diogelwch

Mae Gyrfu Cymru yn gweithredu polisi iechyd a diogelwch cadarn mewn perthynas â darparu ein gwasanaethau, sy'n cynnwys amgylchedd gwaith y staff sy'n ymwneud â gweithgareddau mewn sefydliadau addysgol. Felly, byddwn yn gofyn i ysgolion ddarparu copi o'u polisi iechyd a diogelwch i Gyrfu Cymru a hysbysu'r staff am unrhyw risgiau iechyd a diogelwch cyfredol neu bosibl. Dylid briffio staff Gyrfu Cymru ar weithdrefnau Iechyd a Diogelwch, gan gynnwys diogelwch tân, adrodd ar ddamweiniau a digwyddiadau a gweithdrefnau ar gyfer gweithio unigol. Mae ein staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau iechyd a diogelwch ac yn dilyn polisiâu a gweithdrefnau darparwyr dysgu bob amser.

Gofynnwn i ysgolion ddarparu amgylchedd addas a chyfrinachol ar gyfer cyfweiliadau â disgyblion. Dylid sicrhau bod yr ystafell/lleoliad a ddyrennir ar gyfer y gwasanaeth hwn:

- Wedi'i hawyru'n dda.
- Yn ddigon cynnes neu'n cynnwys dyfais wresogi symudol.
- Yn cynnwys panel gweld yn y drws neu ystafell mewn lleoliad lle y gellir gweld y bobl sydd ynddi.

Mae Cyngorwyr Gyrfu Cymru yn recordio cyfweiliadau gyda chleientiaid yn rheolaidd. Ym mhob achos, gofynnir am ganiatâd y cleient cyn recordio. Caiff recordiadau eu defnyddio at ddibenion monitro perfformiad Cyngorwyr ac at ddibenion hyfforddi. Caiff pob recordiad ei gadw'n ddiogel.

Mae Gyrfu Cymru yn monitro'r defnydd o Ystafelloedd Sgwrsio Gyrfaoedd a gall olrhain y sawl sy'n gyfrifol am ddefnydd amhriodol o'r cyfleuster hwn. Caiff y cyfeiriadau IP eu holrhain a phan gânt eu cysylltu â sefydliadau addysgol, caiff pennaeth neu brifathro yr unigolyn/unigolion sy'n gyfrifol ei hysbysu ar unwaith. Yn dibynnu ar natur y defnydd amhriodol, bydd Gyrfu Cymru yn hysbysu'r Heddlu hefyd.

Diogelu

Mae gan Gyrfu Cymru bolisi diogelu ar waith sy'n cynnwys gwiriadau y Swyddfa Datgelu a Gwahardd lle bynnag y bo'n briodol. Bydd Gyrfu Cymru yn adrodd ar unrhyw achos honedig neu dybiedig o gam-drin person ifanc mewn addysg yn unol â'r polisi hwn a gweithdrefnau perthnasol. Gellir darparu copi o'r polisi a'r gweithdrefnau ar gais.



Offer TGCh a Chysylltedd

Er mwyn hwyluso gwasanaeth effeithiol a syml drwy ddull cyfunol o dechnoleg wyneb yn wyneb a thechnoleg ddigidol, mae Gyrfa Cymru angen cysylltedd dibynadwy ar gyfer ein hoffer.

Cyfraniad yr ysgol tuag at gefnogi'r dull hwn:

- Rhoi mynediad i Gyrfa Cymru i'r rhyngwyd drwy rwydwaith Wi-fi yr ysgol er mwyn galluogi'r Cynghorydd Gyrfaedd i fanteisio ar holl systemau diogel Gyrfa Cymru i ddefnyddio ystod o adnoddau ar-lein ar draws yr ysgol i gefnogi datblygiad gyrfa'r disgyblion. (Os nad oes wi-fi ar gael yn yr ysgol, yna bydd darparu opsiwn cysylltu â chebl yn galluogi Gyrfa Cymru i ddarparu gwasanaethau mewn ystafell statig, ond efallai na fydd yn caniatáu i ni ddarparu'r un lefel o wasanaeth ar gyfer sesiynau grŵp mewn neuaddau, llyfrgelloedd a rhai ystafelloedd dosbarth.
- Hysbysu Rheolwr/Technegydd TG yr ysgol neu gyflenwr cymorth technegol yr ysgol am y cytundeb i staff Gyrfa Cymru gysylltu â rhyngwyd yr ysgol er mwyn cael mynediad at y gwasanaethau y cytunwyd arnynt.
- Rhoi manylion cyswllt rheolwr/technegydd TG yr ysgol neu gyflenwr y rhwydwaith TG i Gyrfa Cymru.
- Hysbysu Gyrfa Cymru am unrhyw newidiadau i gysylltedd y rhyngwyd a allai amharu ar ein gwasanaeth.
- Mynediad at ffôn daearol sydd â Mynediad Uniongyrchol Allanol.

Rhannu Gwybodaeth

Mae cod ymarfer llym gan Gyrfa Cymru ar gyfer storio a rhannu gwybodaeth sy'n cydymffurfio â Rheoliad Diogelu data cyffredinol 2018. Rydym yn cadw data er mwyn darparu cyngor a chyfarwyddyd ar benderfyniadau ynghylch gyrfaedd.

- Fel y nodwyd yn Neddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973 a Rheoliadau Addysg 2007 (Cymru) bydd y sefydliad addysg yn darparu'r wybodaeth berthnasol am ddysgwyr a'u rhieni i Gyrfa Cymru at ddibenion nodi anghenion sy'n flaenoriaeth a darparu'r lefel briodol o wasanaeth. Mae'n rhaid i'r wybodaeth a ddarperir gael ei diweddarau'n flynyddol.
- Wrth brosesu'r wybodaeth hon, bydd Gyrfa Cymru a'r sefydliad addysg yn sicrhau bod eu staff yn cymhwyso egwyddorion Rheoliad Diogelu data cyffredinol 2018.



10 Gweithio ar y Cyd i Ddarparu Gwasanaethau

Er mwyn darparu gwasanaethau'n effeithiol er budd disgyblion mae angen i ysgolion a Gyrfa Cymru weithio mewn partneriaeth.

Mae ysgolion yn cael eu hannog yn gryf i gefnogi'r dull hwn drwy:

- Ddarparu enw cyswllt arweinydd i gefnogi'r gwaith o gydlynu ein gwasanaethau yn yr ysgol.
- Sicrhau bod ystafelloedd a chyfleusterau addas ar gael ar gyfer gweithgareddau unigol a grŵp.
- Caniatáu mynediad i ddysgwyr i staff Gyrfa Cymru ar gyfer darparu gweithgareddau a gynlluniwyd.
- Hysbysu Gyrfa Cymru bob tymor, drwy gyfrwng data disgyblion, o unrhyw ddysgwyr ym Mlynnyddoedd 7 – 13 sydd naill ai wedi ymuno â neu wedi gadael yr ysgol. Gellir gwneud hyn drwy gyfrwng uwchlwythiad diogel i safle gyrfacymru.com. Am gymorth a rhagor o wybodaeth am hyn, cysylltwch â desg gymorth TGCh Gyrfa Cymru ar 02920 84 6799.
- Darparu gwybodaeth gefndirol am ddysgwyr, gan gynnwys Anghenion Addysgol Arbennig, cyrhaeddiad academiaidd presennol/graddau a ragwelir ac unrhyw broblemau iechyd.
- Cynllunio darpariaeth addysg Gyrfaoedd ac addysg sy'n Gysylltiedig â Gwaith yn unol â'r fframwaith Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith.

Mae Deddf Addysg 1997 a Rheoliadau Addysg [Estyn Addysg Gyrfaoedd (Cymru)] 2001, yn gofyn bod ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion yng Nghymru yn darparu:

- Rhaglen wedi'i chynllunio o addysg gyrfaoedd i ddysgwyr
- Mynediad i ddysgwyr at ddeunyddiau arweiniol ac ystod eang o wybodaeth gyfredol ar gyfleoedd gyrfa, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth
- Mynediad rhesymol i ddysgwyr a roddwyd i Gyrfa Cymru
- Gwybodaeth ar ddysgwyr a roddwyd i Gyrfa Cymru

Drwy gydol y flwyddyn academiaidd, bydd Gyrfa Cymru yn cysylltu'n uniongyrchol (drwy e-bost, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb) ag aelodau perthnasol o staff gyda gwybodaeth am yrfaedd, gan gynnwys gwybodaeth am ddiwyddiadau ymgysylltu â chyflogwyr a allai fod o ddiddordeb iddynt hwy a'u disgyblion.

